# Amcan Amgylcheddol 1: Datgarboneiddio’r ystad adeiledig

## Yr hyn i’w gyflawni - Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ar ystad adeiledig Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Sut: - Lleihau cyfanswm yr allyriadau o ystad adeiledig CNC o leiaf 55% o linell sylfaen 2019/20, o 1,132 tCO2e i 500 tCO2e erbyn 2030.

- Lleihau allyriadau fesul metr sgwâr o adeiladau a reolir gan CNC o leiaf 55% o linell sylfaen 2019/20, o 0.044 $tCO_2e$ i 0.02 $tCO_2e$ erbyn 2030, gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na rhesymoli asedau a’r ystad.

- Gwresogi 25% o’r safleoedd a reolir gan CNC sy’n cael eu gwresogi gan danwyddau ffosil (nwy, olew ac LPG) yn 2024 gan ffynonellau gwres carbon isel erbyn 2030.

- Datblygu a mabwysiadu polisïau rheoli ynni ar gyfer safleoedd CNC sydd â’r allyriadau o nwyon tŷ gwydr uchaf, gan gynnwys ystyried gosod systemau rheoli adeiladau.

- Dyluniadau datgarboneiddio ar gyfer systemau pwmp gwres ar bedwar safle CNC.

- Parhau i brynu ynni â thystysgrif gwarant o darddiad ynni adnewyddadwy.

- Byddwn yn sicrhau bod llygredd a gwastraff yn cael eu lleihau trwy wneud y mwyaf o ailddefnyddio, ailgylchu ac adennill deunyddiau trwy gynnal gwaith monitro a chymryd camau gweithredu.




Cynllun corfforaethol hyd at 2030: Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu er mwyn sicrhau, erbyn 2030, y gall cymunedau wrthsefyll newid hinsawdd, a byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod CNC yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer creu sector cyhoeddus niwtral o ran carbon.

Polisi amgylcheddol CNC: Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o’n holl weithrediadau a’n gweithgareddau, a galluogi natur a chymunedau i allu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

## Amcan Amgylcheddol 2: Caffael cynaliadwy

**Yr hyn i'w gyflawni - Sefydlu llinell sylfaen, ac yna cynyddu canran y cyflenwyr sy'n bodloni safonau amgylcheddol ar gontractau a fframweithiau perthnasol CNC.**

Sut:

- Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol, a llinell sylfaen, i wedyn gynyddu canran y cyflenwyr sy'n bodloni safonau amgylcheddol ar gontractau a fframweithiau perthnasol CNC.
- Cefnogi rheolwyr contractau a rheolwyr fframweithiau ar draws y busnes i gynnal adolygiadau o berfformiad cyflenwyr yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud â chynaliadwyedd, gan ganolbwyntio'n benodol ar gontractau a fframweithiau haen aur.
- Cynyddu canran y cytundebau pan fo offer sy'n gysylltiedig â charbon (cyfrifianellau carbon a chynlluniau lleihau carbon) wedi cael eu ceisio / eu cyflwyno, yn unol â Nodyn Polisi Caffael Cymru 06/21.
- Parhau i gyflawni yn erbyn Datganiad Polisi Caffael Cymru, yn benodol yr egwyddorion amgylcheddol (3, 5, 6, 7 a 10).
- Sicrhau bod camau gweithredu i leihau llygredd ac adfer natur yn cael eu hysgogi gan ein cadwyni cyflenwi.



Cynllun corfforaethol hyd at 2030: Arwain trwy esiampl – Rydym yn cydnabod sut y gallwn wneud mwy i harneisio ein pŵer prynu i gael effaith.

Polisi amgylcheddol CNC: Caffael nwyddau a gwasanaethau o ffynonellau cynaliadwy ac annog ein cyflenwyr a'n contractwyr i wella eu perfformiad amgylcheddol.

# Amcan Amgylcheddol 3: Datgarboneiddio’r fflyd

**Yr hyn i’w gyflawni - Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a llygredd sy'n gysylltiedig â theithio.**

Sut:- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a llygredd sy'n gysylltiedig â theithio.

- Datblygu a mabwysiadu strategaeth fflyd i CNC erbyn Rhagfyr 2025 a fydd yn rhoi mecanweithiau ar waith i fonitro a rheoli allyriadau nwyon tŷ gwydr sy’n gysylltiedig â theithio.

- Adolygu milltiroedd y fflyd lwyd a cheir llogi.

- Cynnwys strategaeth gwefru cerbydau trydan.

- Cyflwyno hyfforddiant ar eco-yrru.

- Bydd pob cerbyd newydd yn gerbyd allyriadau isel iawn pan fo hynny'n dechnegol ymarferol.

- Parhau yn y tymor byr i ddefnyddio olewau llysiau hydrogenaidd ar gyfer tanwyddau gweithredol, gan leihau allyriadau 90% yn erbyn llinell sylfaen 2022/23.




Cynllun corfforaethol hyd at 2030: Byddwn yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer sector cyhoeddus carbon niwtral drwy leihau allyriadau cerbydau drwy ddefnyddio cerbydau allyriadau isel iawn lle bynnag y bo’n bosibl.

Polisi amgylcheddol CNC: Lleihau’r allyriadau nwyon tŷ gwydr o’n holl weithrediadau a’n gweithgareddau, a galluogi byd natur a chymunedau i allu gwrthsefyll newid hinsawdd.


# Amcan Amgylcheddol 4: Cynnal ardystiad coetiroedd (Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig)

**Yr hyn i'w gyflawni - CNC i barhau i gynnal ardystiad coetiroedd (Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig) ar gyfer y rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yr ydym yn ei rheoli.**



Sut:- CNC i barhau i gynnal ardystiad coetiroedd (Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig) ar gyfer y rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yr ydym yn ei rheoli.

- Bydd rheolwr ardystio CNC ar gyfer Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig a'r tîm system reoli amgylcheddol yn parhau i ddarparu rhaglen archwilio mewnol drwy gwblhau o leiaf <u>wyth</u> archwiliad mewnol bob blwyddyn i wirio cydymffurfedd â Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig.
- Cau pob cais am gamau unioni mewn modd amserol.
- Targed o ddim ceisiadau am gamau unioni mawr allanol.




Cynllun corfforaethol hyd at 2030: Byddwn yn bodloni safonau byd-eang o reoli coedwigoedd yn gynaliadwy ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

Polisi amgylcheddol CNC: Parhau i fodloni gofynion Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig i ddangos bod ecosystemau ein coedwigoedd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.